



POLISI (GWEITHLE A MANGREOEDD) DI-FWG

Dylid defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r
[Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol](#)

Mae cyfrifoldeb ar reolwyr i sicrhau bod **POB** gweithiwr yn gallu cyrchu'r ddogfen hon.

Daliwch y botwm Ctrl i lawr a chliciwch ar y pennawd perthnasol yn y tabl cynnwys hwn i fynd â chi i'r rhan ofynnol o'r ddogfen:

CYNNWYS

TUDALEN

<u>POLISI (GWEITHLE A MANGREOEDD) DI-FWG</u>	2
<u>NODYN CYFARWYDDO 1</u> DARPARU YSTAFELL SMYGU DDYNODEDIG MEWN MANGREOEDD GOFAL PRESWYL A GOFAL SEIBIANT	4
<u>NODYN CYFARWYDDO 2</u> YMWELD Â MANGREOEDD PRESWYL YN Y GYMUNED	6
<u>NODYN CYFARWYDDO 3</u> MANGREOEDD GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL	7
<u>NODYN CYFARWYDDO 4</u> CWESTIYNAU CYFFREDIN	8
<u>NODYN CYFARWYDDO 5</u> CYNGOR, ARWEINIAD A CHYMORTH PELLACH	9

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchen nog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu	Medi 2019	Fersiwn:	4	Tudalen 1 o 9

Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

- Annog gweithwyr, aelodau a defnyddwyr gwasanaeth i roi'r gorau i smygu, ac yn darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol trwy ein Canolfan Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaeth Dim Smygu Cymru.
- Gwahardd smygu a defnyddio E-sigarêts:
 - ym mhob gweithle a mangre gaeedig a sylweddol gaeedig sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, neu a feddiennir ganddo, gan gynnwys swyddfeydd, ysgolion, mannau cymunedol mewn cynlluniau tai gwarchod, ystafelloedd gorffwys, ffreuturau, theatrau, llyfrgelloedd, cyfleusterau cymunedol, toiledau cyhoeddus, amgueddfeydd, ciosgau, marchnadoedd, bwytai, caffis, ystafelloedd aelodau, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, gorsafoedd a chysgodfannau bysiau, canolfannau dydd, a mangreoedd masnachol sydd ar brydles i drydydd parti neu a logwyd gan drydydd parti, ac ati.
 - ym mhob mangre gaeedig a sylweddol gaeedig a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau neu weithgareddau'r Cyngor Sir, gan gynnwys y rhai sydd ym mherchnogaeth eraill, a weithredir ganddynt, neu a rennir gyda hwy, megis swyddfeydd, clybiau dydd/cinio, canolfannau cynadledda a lleoliadau hyfforddi, ac ati.
 - ym mhob cerbyd a ddefnyddir at ddibenion gwaith neu i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys faniau, bysiau, llyfrgelloedd teithiol a cheir (gan gynnwys eich ceir eich hun yn ystod amser busnes). Rhaid i weithwyr ac eraill (e.e. gwirfoddolwyr, contractwyr) sy'n defnyddio cerbydau yng nghyswllt darparu gwasanaethau sicrhau bod y cerbydau'n ddi-fwg wrth eu defnyddio at y dibenion hynny.
 - ar dir mangreoedd sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, neu a feddiennir ganddo, gan gynnwys meysydd parcio sy'n gysylltiedig â'n hadeiladau gweinyddol a masnachol, gerddi, ardaloedd chwarae, meysydd chwaraeon a mannau allanol eraill, ac ati.
- Peidio â darparu cyfleusterau i smygwyr, megis cysgodfannau neu ystafelloedd smygu, y tu mewn neu'r tu allan, gan gynnwys yn ymyl drysau ac yn union gerllaw i fangreoedd y Cyngor (ac eithrio'r esemptiadau a nodir isod).
- Ni ddylai unrhyw weithwyr smygu yn ystod amser gwaith yn unol â gofynion y polisi smygu.
- Ni chaniateir gwefru E-sigarêts mewn unrhyw un o fangreoedd Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys cerbydau.
- Darparu arwyddion:
 - wrth bob mynedfa i'n mangreoedd, gan gynnwys wrth fynedfeydd i diroedd, sy'n rhoi gwybod i bawb eu bod yn ddi-fwg, a bod smygu wedi'i wahardd. Rhaid i'r arwyddion hyn gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.
 - ym mhob un o'n cerbydau, gan gynnwys y rhai sydd ar brydles neu wedi'u llogi i eraill, sy'n rhoi gwybod i bawb eu bod yn ddi-fwg a bod smygu wedi'i wahardd. Rhaid i'r arwyddion hyn gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007, ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 2 o 9

- Gwahardd gwerthu neu hyrwyddo cynnyrch tybaco mewn mangreoedd sy'n eiddo i'r Cyngor Sir neu a feddiennir ganddo.
- Cydweithio â chyflogwyr eraill, contractwyr neu sefydliadau gwirfoddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn ac y cyfyngir gymaint â phosibl ar unrhyw risgiau cysylltiedig â mwg tybaco ail-law.
- Gweithredu fel cyflogwr enghreifftiol ac esiampl o ymddygiad i gyflogwyr eraill yn Sir Gaerfyrddin yng nghyswllt smygu a darparu gweithleoedd di-fwg.
- Mynd ati'n achlysurol i fonitro, adolygu a gwella (pan fydd angen) cyflwyniad y polisi hwn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol, a'n bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cysylltiedig a/neu safonau rheoli perthnasol.

Esemptiadau:

1. Caniateir ystafelloedd smygu dynodedig neu ardaloedd smygu allanol mewn cartrefi gofal preswyl a gofal seibiant i oedolion, a chaniateir ardaloedd smygu allanol dynodedig mewn sefydliadau gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau gofal dydd i bobl oeddrannus neu **bobl agored i niwed**.
2. Mewn fflatiau ac ardaloedd cartref ar Fangreoedd Tai Gwarchod a Thai Cyngor - bydd **HOLL** ardaloedd cymunedol ac allanol y mangreoedd hyn yn dod o fewn cwmplas y polisi.

At ddibenion y Polisi hwn ystyrir bod 'E-Sigaréts' (sydd yn cynnwys nicotin) yn sigaréts.

Cwmpas y Polisi

Bydd y polisi hwn yn berthnasol i holl sefydliadau a holl weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, gwirfoddolwyr sy'n gweithredu ar ein rhan, contractwyr, ymwelwyr, gweithwyr asiantaeth ac aelodau o'r cyhoedd sy'n cyrchu neu'n defnyddio mangreoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu a feddiennir ganddo.

Trefniadau mewn Ysgolion

Caiff Cyrff Llywodraethu pob ysgol eu hannog i fabwysiadu'r polisi hwn, gydag argymhelliad y gall ysgolion fod yn dymuno datblygu geiriad priodol i gynnwys disgyblion neu gyfeirio at y polisi neu'r canllawiau priodol ar gyfer disgyblion. Rhaid i dimau rheoli ysgolion sicrhau bod ein mangreoedd bob amser yn parhau'n ddi-fwg, gan gynnwys y tu allan i oriau arferol yr ysgol pryd y gellir llogi'r cyfleusterau i drydydd parti.

Dogfennau Ategol

Bydd gwybodaeth, canllawiau a dogfennau ategol ar gael i helpu i reoli ac i weithredu'r polisi hwn.

Sicrhau Triniaeth Gyfartal

Rhaid arfer cysondeb yn y modd y gweithredir y polisi hwn wrth ymdrin â phob gweithiwr, heb ystyried hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol (gan gynnwys dinasyddiaeth), iaith, anabledd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws o ran cyfrifoldebau magu plant neu statws priodasol, beichiogrwydd neu famolaeth.

Os bydd gennych unrhyw bryderon ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyswllt gweithredu'r polisi hwn a'r weithdrefn hon, gofynnir i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd, os bydd angen, yn sicrhau bod y polisi/gweithdrefn yn cael eu hadolygu'n briodol.

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, gofynnir i chi gysylltu â'r tîm Rheoli Pobl ar (01267) 246184 neu Est. 6184.

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 3 o 9

NODYN CYFARWYDDO 1

Darparu Ystafell Smygu Ddynodedig mewn Mangreoedd Gofal Preswyl a Gofal Seibiant

Mae Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 yn gwneud esemptiad ar gyfer cartrefi gofal preswyl i oedolion, ac yn **caniatáu smygu mewn ystafelloedd dynodedig**, yn ôl amodau.

**Dylid cysylltu â rheolwr y cartref gofal i drafod trefniadau lleol.*

Os penderfynir dynodi ystafell benodol lle gall y preswylwyr smygu, yna:

- rhaid i'r ystafell fod yn addas i'w diben,
- rhaid i'r ystafell fod wedi'i nodi'n glir fel ystafell lle caniateir smygu,
- dylai'r drws i'r ystafell fod o ddeunydd gwrthdan a dylai fod ganddo ddyfais sy'n ei gau ohono'i hun, sy'n sicrhau bod y drws yn aros ar gau,
- rhaid bod gan yr ystafell system awyru fecanyddol addas a digonol, sydd yn arllwys y tu allan i'r adeilad (ac nid yn union o dan neu ar bwys ffenestr). Bydd cyngor technegol ynghylch systemau awyru a'u swyddogaeth ar gael gan y Gwasanaethau Eiddo, drwy'r [Ddesg Gymorth Eiddo](#).
- rhaid darparu modd diogel ac addas o gasglu a gwaredu gwastraff sy'n gysylltiedig â smygu yn yr ystafell, ynghyd â gweithdrefn ar gyfer trafod y gwastraff hwn sydd yn rheoli'r risg o danau'n digwydd,
- dylai'r ystafell fod â chyn lleied â phosibl o ddodrefn a rhaid sicrhau'r canlynol:
 - bydd yr holl ffabrigau a deunyddiau dodrefnu yn cydymffurfio â Rheoliadau Celfi a Deunyddiau Dodrefnu (Diogelwch Tân) 1988, safonau perthnasol a byddant wedi'u marcio'n briodol.
 - rhaid i'r ystafell beidio â chynnwys unrhyw eitemau a fyddai'n cynyddu'r risg o dân e.e. planhigion mewn potiau (rhaid go iawn neu artiffisial).
- dylid darparu modd effeithiol o arsylwi a goruchwylio preswylwyr yn yr ystafell, megis paneli gweld naill ai yn y drws neu yn y waliau. Dylai'r gwydr a ddefnyddir yn y paneli gweld hyn fod o ddeunydd gwrthdan (e.e. gwydr gwifrog Sioraidd).

At ddefnydd y preswylwyr yn unig y mae ystafelloedd o'r fath, nid ar gyfer staff neu ymwelwyr. Cafodd yr esemptiad ar gyfer ystafelloedd smygu dynodedig ei wneud er mwyn cydnabod mai mangreoedd preswyl ydynt, a'u bod felly yn gartrefi i'r preswylwyr sydd yn smygu.

Fel rheol ni ddylai fod angen i staff weithio yn yr ystafelloedd smygu dynodedig hyn. Os oes rhaid iddynt fynd i mewn i'r ystafelloedd hyn, rhaid iddynt dreulio cyn lleied o amser ag y bo modd mewn cysylltiad â mwg ail law. Ni ddylid gofyn i staff sydd eisoes â chyflyrau a waethygir gan fwg ail law (e.e. asthma) neu weithwyr sydd yn feichiog fynd i mewn i'r ystafelloedd hyn o gwbl.

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 4 o 9

Bydd cyngor, arweiniad a chymorth ar gael i'r preswylwyr ac yn cael eu darparu iddynt os ydynt eisiau rhoi'r gorau i smygu. Mae'r cyngor, yr arweiniad a'r cymorth hwn ar gael trwy'r gwasanaeth Dim Smygu Cymru (gweler yr arweiniad i gymorth pellach am ragor o wybodaeth).

Gellir darparu ardaloedd smygu dynodedig allanol mewn cartrefi gofal preswyl a gofal seibiant. Ynglŷn â'r ardaloedd smygu allanol hyn:

- rhaid iddynt fod wedi'u lleoli mewn mannau synhwyrol (h.y. heb fod yn agos i ddrysau a mynedfeydd a ffenestri).
- rhaid iddynt beidio â bod wedi'u lleoli'n agos i adeiladau lle gall mwg ail law fynd i mewn trwy ffenestri. drysau neu agoriadau tebyg,
- rhaid iddynt beidio â bod yn gaeedig, neu fod wedi'u hamgáu i raddau sylweddol,
- rhaid darparu modd diogel ac effeithiol o gasglu sbwriel sy'n gysylltiedig â smygu, gan gynnwys biniau diffodd sigarêts

Gall preswylwyr ddefnyddio'r cyfleusterau allanol hyn a gall gweithwyr eu defnyddio hefyd lle nad ydynt yn cael seibiannau swyddogol i adael y safle i smygu neu ble byddai gadael y safle yn cael effaith ddifrifol ar lefel yr oruchwyliaeth neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr. Byddai hyn yn fwy tebygol o fod yn broblem gyda'r hwyr neu yn ystod y nos, pryd yn aml caiff llai o staff eu cyflogi yn y cartref gofal.

Caiff y defnydd o E-sigarêts ei wahardd yn holl fangreoedd a cherbydau Cyngor Sir Caerfyrddin o ganlyniad i'r perygl tân a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwefru E-sigarêts. Ble mae preswylwyr yn defnyddio E-sigarét, dylid gwneud trefniadau gyda theulu neu ffrindiau ar gyfer ail-wefru'r ddyfais oddi ar y safle.

Dylid cwblhau asesiad risg ar gyfer preswylwyr sydd am ddefnyddio sigarêts. Bydd hyn yn pennu p'un a oes angen i offer smygu (e.e. tanwyr) gael eu cadw gan staff a bod y preswylwyr yn gofyn amdanynt pan fyddant yn dymuno smygu.

[Dychwelyd i'r Cynnwys](#)

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 5 o 9

NODYN CYFARWYDDO 2

Ymweld â Mangreoedd Preswyl yn y Gymuned

Bydd angen i lawer o weithwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr (e.e. gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cartref, swyddogion tai neu staff cynnal a chadw) fynd i mewn i gartref rhywun i ddarparu gwasanaeth, a gallant ddod i gysylltiad â mwg ail law os yw'r sawl yr ymwelir ag ef/hi neu eraill yn y cyfeiriad hwnnw yn smygwyr. Nid yw cartrefi preifat yn dod o dan y gyfraith dim mwg, felly nid oes cyfyngiadau cyfreithiol ar breswylwyr sy'n smygu yn eu cartref eu hunain.

Er mwyn lleihau'r risg i weithwyr, dylid cymryd y camau canlynol:

- Nodi pa gartrefi y mae gweithwyr yn ymweld â hwy sydd yn gartrefi i smygwyr.
- Ein dyletswydd yw amddiffyn ein gweithwyr, ac eraill sy'n cyflwyno gwasanaeth ar ein rhan, rhag mwg ail law. Unwaith y bydd y cartrefi hyn wedi'u nodi bydd y preswylwyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig, yn unol â rheoliad eiddo di-fwg 2007, bod angen iddynt gydweithredu trwy beidio â smygu am awr cyn i'r staff gyrraedd ac yn ystod eu hymweliad.
- Pan gaiff gwasanaethau eu trefnu dros y ffôn, bydd y preswylwyr yn cael gwybod ar lafar ei bod yn ofynnol iddynt beidio â smygu yn eu cartref am awr cyn i'r ymweliad ddigwydd ac yn ystod yr ymweliad.
- Dylai gweithwyr roi gwybod i'w Rheolwr/Goruchwyliwr am unrhyw bryderon neu broblemau yn ymwneud â phreswylwyr yn smygu yn ystod yr ymweliad. Dylai gweithwyr sydd eisoes â chyflyrau a waethygir gan fwg ail law roi gwybod i'w Rheolwr/Goruchwyliwr ar unwaith fel bod gwneud trefniadau addas.

Lle bydd preswilydd yn parhau i smygu yng ngŵydd ein gweithwyr, dylid cymryd y camau canlynol:

- Dylid atgoffa'r preswylwyr yn gwrtais ynghylch gofynion ein polisi di-fwg.
- Os yw'r preswilydd yn parhau i smygu, gall gweithwyr adael y fangre, rhoi gwybod i'w Rheolwr/Goruchwyliwr eu bod yn gwneud hynny a chwblhau'r gwaith papur perthnasol e.e. 'Ffurflen Cerdded Ymaith' / 'Log Pryderon'.
- Rhaid i'r Rheolwr/Goruchwyliwr drafod ar lafar gyda'r preswilydd y gofyniad i beidio â smygu yn ystod ymweliad a chadarnhau hyn yn ysgrifenedig.
- Os yw'r preswilydd yn gwrthod cydymffurfio yna gellir mabwysiadu gweithdrefnau a allai olygu atal ein gwasanaethau.

Dychwelyd i'r Cynnwys

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 6 o 9

NODYN CYFARWYDDO 3

Mangreoedd Gofal Cymdeithasol Dibreswyl

Rhaid i ardaloedd mewn canolfannau dydd neu weithgareddau cymdeithasol tebyg, sydd yn gaeedig neu wedi'u hamgáu i raddau sylweddol, fod yn gwbl ddi-fwg, ac **ni** ellir dynodi neu ddefnyddio ystafelloedd ar gyfer smygu o fewn y fangre.

Cydnabyddir nad yw efallai'n briodol neu'n ddiogel i ofyn i rai defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig y rheiny sy'n oedrannus neu'n agored i niwed, i adael y safle'n llwyr, gan gynnwys y tiroedd allanol a meysydd parcio ac ati os ydynt yn dymuno smygu. Byddwn felly yn caniatáu, os oes eu hangen, ardaloedd smygu dynodedig allanol mewn sefydliadau gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaeth i'r bobl hyn (e.e. canolfannau dydd). Ynglŷn â'r ardaloedd smygu allanol hyn:

- rhaid iddynt fod wedi'u lleoli mewn mannau synhwyrol (h.y. heb fod yn agos i ddrysau a mynedfeydd),
- rhaid iddynt beidio â bod wedi'u lleoli'n agos i adeiladau lle gall mwg ail law fynd i mewn trwy ffenestri, drysau neu agoriadau tebyg,
- rhaid iddynt beidio â bod yn gaeedig, neu fod wedi'u hamgáu i raddau sylweddol,
- rhaid darparu modd diogel ac effeithiol o gasglu sbwriel sy'n gysylltiedig â smygu, gan gynnwys biniau diffodd sigarêts a gwacáu a glanhau biniau.

Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu cyfleusterau ar gyfer smygwyr, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, megis cysgodfannau smygu allanol.

Rhaid rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am ofynion ein polisi di-fwg, a'r trefniadau lleol ym mhob sefydliad penodol.

Caiff y defnydd o E-sigarêts ei wahardd yn holl fangreoedd a cherbydau Cyngor Sir Caerfyrddin o ganlyniad i'r perygl tân a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwefru E-sigarêts. Ble mae defnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio E-sigarét, dylid gwneud trefniadau gyda theulu neu ffrindiau ar gyfer ail-wefru'r ddyfais oddi ar y safle.

Dylid cwblhau asesiad risg ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd am ddefnyddio sigarêts. Bydd hyn yn pennu p'un a oes angen i offer smygu (e.e. tanwyr) gael eu cadw gan staff a bod y defnyddwyr gwasanaeth yn gofyn amdanynt pan fyddant yn dymuno smygu.

Dychwelyd i'r Cynnwys

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 7 o 9

NODYN CYFARWYDDO 4

Cwestiynau Cyffredin

1. A oes hawl gennyf i gael egwyliau smygu?

Gall gweithwyr sydd am smygu wneud hynny yn ystod eu hamser eu hunain yn unig. Gall gweithwyr y Cyngor sydd am smygu naill ai wneud hynny yn ystod egwyliau swyddogol neu pan fyddant yn clocio allan neu drwy'r cynllun oriau hyblyg. Dylai rheolwyr sicrhau nad yw'r arfer hwn yn cael effaith negyddol ar y gwasanaeth a gyflwynir, a bod y gweithwyr yn cydweithredu â hwy tuag at yr amcan hwn.

2. A yw'r Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg hwn yn berthnasol i weithio o gartref?

Nid yw'r cyfreithiau dim mwg hyn yn berthnasol i fangreoedd domestig. Fodd bynnag, lle caiff ystafell mewn cartref gweithiwr ei defnyddio'n unig at ddibenion gwaith bydd yn ofynnol i'r ystafell hon fod yn ddi-fwg.

Rhaid i'r holl weithwyr gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr tra byddant yn y gwaith, gan gynnwys pan fyddant yn gweithio o gartref.

3. A ddylwn i gynnwys gwybodaeth am y Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg wrth recriwtio staff?

Bydd hysbysebion swyddi, gwybodaeth a ddarperir i ddarpar ymgeiswyr a sesiynau cynefino i weithwyr newydd (e.e. croesawu corfforaethol, sesiynau sefydlu penodol i safle a chyfarwyddyd diogelwch tân) yn cyfeirio at y Polisi Di-fwg. Bydd yr holl hysbysebion yn datgan fod y "Cyngor Sir yn gweithredu polisi di-fwg".

Bydd yr holl weithwyr newydd yn cael eu hatgoffa ynghylch gofynion y polisi di-fwg, a bydd yn ofynnol iddynt gadw ato.

4. Oes angen i mi arddangos arwyddion yn fy mangre?

Rhaid arddangos arwyddion wrth bob mynedfa i fangreoedd, wrth fynedfeydd i dir mangreoedd ac ym mhob cerbyd gwaith.

5. Oes angen i mi ddarparu cyfleusterau ar gyfer smygwyr?

Ni fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu cyfleusterau ar gyfer smygwyr heblaw am y mangreoedd hynny sydd wedi'u heithrio o'r polisi (gweler [Nodyn Cyfarwyddo 1](#) a [Nodyn Cyfarwyddo 3](#) am ragor o wybodaeth).

6. Pwy sy'n gyfrifol am orfodi'r Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg?

Mae llwyddiant y polisi di-fwg hwn yn dibynnu ar ystyriaeth a chydweithrediad yr holl weithwyr a rheolwyr, ac unrhyw un arall sy'n cael ei effeithio ganddo.

Gallai polisi a gweithdrefnau disgyblu y Cyngor gael eu rhoi ar waith yn achos gweithiwr sy'n methu â chydymffurfio â'r polisi hwn.

Dychwelyd i'r Cynnwys

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreoedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 8 o 9

NODYN CYFARWYDDO 5

Cyngor, Arweiniad a Chymorth Pellach

Rydych bedair gwaith yn fwy tebygol o roi'r gorau i smygu trwy fynd ar raglen gymorth nac wrth geisio gwneud hyn ar eich pen eich hun.

Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch

Gall y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol roi cyngor i chi am y manteision i'ch iechyd o roi'r gorau i smygu ac â phwy y gallech gysylltu neu siarad â nhw ynghylch rhoi'r gorau i smygu (gweler isod).

Meddyg Teulu

Bydd eich meddyg teulu yn rhoi cyngor i chi am y grwpiau cymorth isod a gall hefyd eich cynghori ynglŷn â ph'un a fyddai meddyginiaeth ar bresgripsiwn i'ch helpu i roi'r gorau iddi yn addas i chi.

Helpa fi i Stopio

Byddwch yn cael cyngor a chymorth ac yn dod i wybod pa Therapi Disodli Nicotin fyddai orau i chi. Maent yn cynnal sesiynau wythnosol ledled Cymru a gallwch ddod o hyd o sesiwn ar amser ac mewn lleoliad sy'n addas i chi. Mae'r sesiynau yn dechrau ychydig wythnosau cyn i chi fwriadu rhoi'r gorau i smygu ac yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich dyddiad rhoi'r gorau iddi. Mae'r sesiynau'n para am chwe wythnos a byddwch yn cael eich asesu i weld sut ydych yn dygymod ac yn derbyn cymorth trwy gydol y rhaglen.

Rhif Cyswllt: **0800 085 2219**

[Dychwelyd i'r Cynnwys](#)

Teitl:	Polisi (Gweithle a Mangreioedd) Di-fwg		Awdur:	CHSU		Perchennog:	Paul Thomas	
Statws:	Polisi	Dyddiad Cyflwyno:	Medi 2016	Dyddiad Adolygu:	Medi 2019	Fersiwn:	3	Tudalen 9 o 9